

DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

A GYFLWYNWYD / TABLED ON

30/04/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

OPIN-2001-0023 Ymgyrch i godi cerflun i ddathlu bywyd Ivor Novello/Campaign to erect a statue to celebrate the life of Ivor Novello

30 Apr 2001 Raised by Gareth Jones

No Subscribers

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cefnogi'r ymgyrch i godi cerflun i goffau Ivor Novello, y dramodydd a'r cerddor o Gaerdydd. Rydym yn cydnabod ei gyfraniad i gerddoriaeth ar y llwyfan rhyngwladol ac i fywyd diwylliannol ein cenedl.

The National Assembly for Wales supports the campaign to erect a statue to commemorate Ivor Novello, the playwright and musician from Cardiff. We acknowledge his contribution to music on the international stage and to our nations cultural life.

OPIN-2001-0022 Cefnogaeth i'r 'Merthyr Metrig'/ Support for the 'Metric Martyr'

30 Apr 2001 Raised by David Davies

No Subscribers

Mae'r Cynulliad hwn yn lleisio'i gefnogaeth lawn i'r masnachwr o Sunderland, Steven Thoburn, ac mae'n gresynu at y penderfyniad i erlyn y masnachwr hwn am arfer ei hawl i gyflenwi

nwyddau i'w gwsmeriaid mewn mesurau imperial. Mae'r achos hwn wedi amlygu'r bygythiad i ddemocratiaeth a masnach rydd yng Nghymru o du'r Comisiwn Ewropeaidd, sydd, ym mhob gorchymyn newydd, yn tanseilio hawliau sofran ein cenedl.

This Assembly voices its full support for the Sunderland trader Steven Thoburn and deplores the decision to convict this trader for exercising the right to supply his customers in imperial measures. This case has highlighted the treat to democracy and free trade in Wales posed by the European Commission, who, with each new dictat, undermine the sovereign rights of our nation.

OPIN-2001-0020 Senedd Ieuenctid Cymru/Welsh Youth Parliament

04 Apr 2001 Raised by Janet Ryder

7 Subscribers:

Brian Hancock
Dai Lloyd MBBCh MRCP Dip. Ther
Cynog Dafis
Owen John Thomas MA
Janet Davies
Elin Jones
Geraint Davies

Mae'r Cynulliad hwn yn credu bod gan bobl ifanc Cymru gyfraniad allweddol i'w wneud wrth wella'r gymuned yng Nghymru ac mae'n cefnogi datblygu Senedd Ieuenctid Cymru, dan arweiniad pobl ifanc Cymru a chyda chefnogaeth Dyfodol Ieuenctid. Dylai'r sefydliad hwn roi'r cyfle i bobl ifanc Cymru ddod yn ddinasyddion brwd a dylanwadu ar bolisiau'r llywodraeth, sy'n effeithio arnynt.

This Assembly believes that young people in Wales are key to making a better society in Wales and supports the development of a Welsh Youth Parliament, led by young people in Wales and supported by Dyfodol Ieuenctid. This organisation should offer young people in Wales the opportunity to become active citizens and impact on government policies, which affect them.

OPIN-2001-0019 Gwrthsefyll treialon GM/Resisting Gm Trials

04 Apr 2001 Raised by Mick Bates, Glyn Davies, Jocelyn Davies, Richard Edwards

5 Subscribers:

Cynog Dafis
Geraint Davies
John Griffiths LLB
Val Feld
Tom Middlehurst

Mae'r Cynulliad hwn:

- *Yn gresynnu am weithredoedd yr Adran Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) yn comisiynu treialon cnydau a addaswyd yn enetig yn sir y Fflint a sir Benfro, yn enwedig o gofio polisi clir y Cynulliad ar gnydau GM*
- *Yn credu bod y gweithredoedd hyn yn ansensitif, ac o bosibl yn anghy frifol ar adeg o argyfwng amaeth a chynfyngiadau ar symud yng nghefn gwlad*
- *Yn galw ar y DETR a'r ffermwyr sy'n cymryd rhan i dynnu allan o'r arbrofion hyn cyn i'r cnydau gael eu plannu.*

This Assembly:

- *Regrets the actions of the Department of the Environment, Transport and the Regions in commissioning trials of genetically modified crops in Flintshire and Pembrokeshire, particularly in view of the clearly stated policy of the Assembly on GM crops*
- *Believes that these actions are insensitive and potentially irresponsible at a time of agricultural crisis and restrictions on movement in the countryside*
- *Calls on the DETR and the farmers involved to pull out of these experiments before the crops are planted.*

OPIN-2001-0018 Llywodraeth yr UD a Kyoto/US Government and Kyoto

04 Apr 2001 Raised by Ron Davies, Richard Edwards, Janice Gregory, John Griffiths LLB, Alun Pugh

1 Subscriber:

Cynog Dafis

Mae'r Cynulliad yn cofio'r llifogydd trychinebus yng Nghymru yr hydref diwethaf; yn credu bod angen gweithredu byd-eang er mwyn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd; ac yn galw ar Lywodraeth yr UD i gyflawni ei dyletswyddau rhyngwladol sy'n deillio o gytundeb Kyoto.

The Assembly recalls the disastrous flooding in Wales last autumn; believes global action is required to counteract climatic change and calls upon the US Government to honour its international obligations arising from the Kyoto agreement.

OPIN-2001-0016 Galw am Ymchwiliad Cyhoeddus i Achosion o Gamweinyddu Cyfiawnder/Call for Public Enquiry into Miscarriages of Justice

22 Mar 2001 Raised by Cynog Dafis, John Griffiths LLB, Owen John Thomas MA

9 Subscribers:

Gareth Jones
Brian Hancock
Alison Halford
Dafydd Wigley
Janet Ryder
Jocelyn Davies
Geraint Davies
Helen Mary Jones
Rhodri Glyn Thomas

Mae rhai achosion, lle bu camarfer a lle cafodd rhai pobl eu carcharu ar gam, yn peri pryder ynghylch effeithlonrwydd ac uniondeb rhai o swyddogion Heddlu De Cymru sy'n dal i weithio a rhai o'r swyddogion hynny sydd wedi ymddeol. Rydym yn galw felly am Ymchwiliad cyhoeddus i'r ffordd y cafodd yr achosion hyn eu cynnal.

Several cases, involving malpractices and resulting sometimes in wrongful imprisonment, give rise to concern regarding the efficiency and probity of some police officers, current and retired, of the South Wales Force. Therefore we call for a public Enquiry to investigate the manner in which these cases were conducted.

OPIN-2001-0014 Gwrthsefyll rhagfarn - Opposing prejudice

21 Mar 2001 Raised by Peter Black

3 Subscribers:

Cynog Dafis
Mick Bates
Richard Edwards

This Assembly:

- *Condemns the offensive and derogatory wording of the Welsh Mirror headline of 19 March 2001, referring to the late Viscount Tonypan dy, George Thomas as "Tonypansy"*
- *Regrets the suggestion that revelations about a person's sexuality could be regarded as a "slur"*
- *Believes that the recent revelations by Leo Abse highlight the climate of fear in Britain prior to the passing of Mr Abse's 1967 Bill to legalise male homosexuality, and regrets that this climate has not entirely disappeared*
- *Calls on the editor of the Welsh Mirror to make a formal apology for the offensive headline.*

Mae'r Cynulliad hwn yn:

- *Condemnio geirio sarhaus a dirmygus pennawd y Welsh Mirror 19 Mawrth, yn cyfeirio at y diwedder Is-iarll Tonypan dy, George Thomas fel "Tonypansy"*
- *Gresynu am yr awgrym y gallai datguddiadau am rywioldeb rhywun gael eu gweld yn "slur"*
- *Credu bod datguddiadau diweddar Leo Abse yn bwrw goleuni ar yr awrygylch o ofn ym Mhrydain cyn pasio Mesur Mr Abse yn 1967 yn cyfreithloni gwrywgydiaeth, ac yn gersynu nad yw'r awrygylch hwnnw wedi llwyr ddiflannu*
- *Galw ar olygydd y Welsh Mirror i ymddiheuro yn ffurfiol am y pennawd sarhaus.*

OPIN-2001-0011 Yr Ewro a'r Mudiad Ewropeiaid Ifanc/The Euro and the Young European Movement

12 Mar 2001 Raised by Peter Black

9 Subscribers:

Gareth Jones
Jocelyn Davies
Cynog Dafis
Rhodri Glyn Thomas
Brian Hancock
Mick Bates
Dafydd Wigley
Christine Chapman
John Griffiths LLB

The Euro and the Young European Movement

This National Assembly recognises the benefits to Wales of joining the Euro and supports the calling of an early referendum on a single European currency, once the economic conditions

are right. It also congratulates the Young European movement on its Euro Campaign.

Yr Ewro a'r Mudiad Ewropeiaid Ifanc

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod manteision ymuno â'r Ewro i Gymru ac yn cefnogi galw pleidlais gynnar ar Arian Ewropeaidd Sengl, pan fydd yr amodau economaidd yn iawn. Mae hefyd yn llongyfarch y Mudiad Ewropeaid Ifanc ar ei ymgyrch dros yr Ewro .